



# HEDDWCH

Rhifyn 71 > Gwanwyn 2019 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

*Claddu gwastraff ymbelydrol dros ben yn ddwfn yn y ddaear?  
Mae ein holl Gynghorau'n dweud*

## DIM CLADDU YNG NGHYMRU



### PWY ALLAI GAEL EU LLWGRWOBRWYO?

Nid Brymbo, na Llanllechid, Ceredigion, Aberystwyth, Castell-nedd Port Talbot, Powys, na'r Bala...

Mae Radioactive Waste Management yn chwilio am gymuned sy'n fodlon 'croesawu' Cyfleuster Gwaredu Daearegol i storio gwastraff ymbelydrol am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Dywedwn ninnau peidiwch â chynhyrchu arfau niwclear, a pheidiwch ag adeiladu gorsafoedd niwclear. A'r gwastraff sy'n bod eisoes? Ei gadw lle gellir ei fonitro a'i adhawlio'n hawdd. Er mwyn cenedlaethau i ddod ...

## Y FFORDD YMLAEN: Cymru, Ewrop a'r byd ehangach

*Rwy'n ysgrifennu fy erthygl gyntaf i Heddwch yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd CND Cymru - am yr ail waith! Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn falch i fynd i'r afael â'r swydd bwysig iawn yma a dod yn un o'r tîm unwaith eto. Bu'n achos syndod i fi erioed bod grŵp mor fychan o bobl yn gallu cyflawni cymaint wrth drefnu CND Cymru. Rwy'n credu y gallwn gyflawni cymaint mwy yn y blynyddoedd i ddod, gan weithio'n agos gydag eraill yn y mudiad heddwch i roi arweiniad mewn adeiladu cenedl fwy heddychlon a chyfiawn. Edrychaf ymlaen at yr her o'n blaenau.*

Ar adeg ysgrifennu, wn i ddim a fyddaf yn Aelod Seneddol Ewropeaidd o hyd neu beidio. Rydym wedi bod drwy dair blynedd gythryblus. Mae hi'n bwysicach nag erioed ein bod yn dod â'n cymunedau ynghyd gyda nod cyffredin. Gall CND Cymru chwarae rhan allweddol yn hynny.

### **Heddwch yw'r flaenoriaeth**

Tu ôl i'r ffocws gan y cyfryngau ar Brexit, ceir datblygiadau a all achosi bygythiad mawr. Crëwyd yr Undeb Ewropeaidd er mwyn atal rhagor o ryfeloedd trychinebus rhwng gwladwriaethau Ewropeaidd. Yn lle arfau cafwyd dialog. Rhaid i ni ail-ganolbwyntio ar weithio dros heddwch. Allwn ni ddim derbyn ras arfau niwclear ar ben yr holl anrhefn rydym yn wynebu nawr.

### **Yr INF mewn perygl**

Mae'r Unol Daleithiau a Rwsia wedi cyhoeddi y byddant yn gohirio cymryd rhan yn y Cytundeb Grymoedd Niwclear Cwmpas Canolradd yn Ewrop – sef y Cytundeb INF. Cafodd y Cytundeb ei lofnodi gan yr Arlywyddion Reagan a Gorbachev yn 1987 ac roedd yn un o'r prif gerrig milltir wrth ddod â'r Rhyfel Oer i ben. Cafodd tua 3,000 o bennau ffrwydrol eu dinistrio.

Fe gymerodd nifer ohonom ran yn y protestiadau anferth a gafwyd ar draws Ewrop. Ymateb i hynny oedd Cytundeb yr INF. Dyma ddangos y gall protest fod yn effeithiol. Dyna oedd y tro cyntaf i'r pwerau mawrion gytuno i leihau nifer eu harfau niwclear.

### **Gwersi o Lithwania**

Yn ystod fy ugain mlynedd yn Senedd Ewrop rwyf wedi gweld nifer o newidiadau. Yn 1999, fe es i i Lithwania fel aelod o Gyd-ddirprwyath

Senedd Ewrop. Roedd Lithwania wedi gwneud cais i ymuno â'r UE ac un o'r rhwystrau i hyn oedd gorsaf bŵer Ignalina. Cafodd Ignalina ei adeiladu gan ddefnyddio'r un cynllun â Chernobyl.

Amod aelodaeth oedd y byddent yn cau a dadgomiynu'r orsaf. Doedd fawr o waith arall yn yr ardal ac roedd y rhan fwyaf o deuluoedd oedd yn byw yno yn ddibynol arno. Fe aeth grŵp bach ohonom yn Aelodau Seneddol Ewropeaidd i gwrdd â'r bobl leol mewn cyfarfod cyhoeddus anodd iawn. Gwrthodon nhw'r pryderon diogelwch ynglŷn â'r orsaf gan ddadlau'n bwerus o blaid eu hachos am gyflogaeth, ond gan dderbyn yn amharod y byddai'r orsaf yn cau pe baen nhw'n ymaelodi â'r UE.

Gwyddom fod yr holl bethau hyn yn cymryd amser. Ni chaewyd Ignalina tan 2009.

Ymaelododd Lithwania â'r UE yn 2004.

Gwlad fach fel Cymru yw Lithwania gyda phoblogaeth o 2.8 miliwn o bobl. Does dim un wlad annibynnol yn y byd o'r maint hwn wedi dadgomiynu adweithydd o'r fath. Dim ond gyda chymorth yr UE y llwyddodd i wneud hyn.

### **Gwaredu gwastraff ymbelydrol**

Ym mis Ionawr, mabwysiadodd Senedd Ewrop adroddiad dadgomiynu Ignalina yr NNP gan alw am gynydd yn ariannu'r UE, o ganlyniad i gostau cadw a gwaredu gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Buddsoddodd yr UE yn y project, gan gydnabod, bod hyn nid yn unig yn hanfodol i Ewrop gyfan ond hefyd y gallai'r medrau a ddatblygwyd wrth ddadgomiynu gael eu defnyddio mewn gwledydd eraill. Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gymunedau

yng Nghymru fyddai'n fodlon cadw 60 mlynedd o wastraff ymbelydrol, a hefyd gwastraff y dyfodol. Mae'n bleser gen i ddweud bod nifer o awdurdodau lleol yn gwrthod yr argymhellion hyn.

### **Canolbwytio ar ynni adnewyddadwy**

Mae Hitachi wedi gohirio cynlluniau ar gyfer gorsaf niwclear Wylfa Newydd yn Ynys Môn. Mae Llywodraeth y DG yn parhau i gynnis cymelliadau i orsafoedd niwclear newydd gan eu ffafrio dros ddewisiadau mwy effeithiol a rhatach – gwynt atraeth ac alltraeth, llanw a solar. Allwn ni ddim clymu ein hanghenion ynni a'n llwyddiant economaidd wrth ffynhonnell ynni anghynaladwy a pheryglus pan fod gan Gymru gyfoeth o adnoddau ynni adnewyddadwy.

### **Pŵer y bobl o blaid Gwaharddiad Byd-eang**

Felly mae llawer o ymgyrchu o'n blaenau. Ond rydym yn cymryd rhan hefyd mewn ymgyrch gadarnhaol. Ym mis Gorffennaf 2017 mabwysiadwyd y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear gan y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Mae'n gwahardd gwledydd rhag datblygu, profi, cynhyrchu, cadw, masnachu, defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear, neu hyd yn oed i ganiatáu nhw i gael eu gosod ar eu tiriogaeth. Gwrthododd y naw gwlad sydd yn berchen ar arfau gymryd rhan yn y broses gan ddweud ei fod yn afrealistig! Rhaid i ni eu profi yn anghywir.

Pŵer y bobl oedd yn gyfrifol am fodolaeth cytundeb y Cenhedloedd Unedig. Lansiwyd

mudiad o'r enw'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddiddymu Arfau Niwclear (ICAN) yn 2007. Mae'n dod â dros 500 o sefydliadau at ei gilydd ar draws y byd, gan gynnwys CND Cymru. Mae'r cytundeb yn rhwymo'r gwledydd hynny sydd yn ei lofnodi a'i gadarnhau yn gyfreithiol, ond nid y gwledydd hynny sydd heb. Bydd yn dod yn weithredol ar ôl i bumdeg o gwledydd ei lofnodi a'i gadarnhau. Dyma gyfle i newid cyfeiriad ar lefel ryngwladol. Mae hwn yn fframwaith ar gyfer diarfogi a byd heb arfau niwclear.

Hyd yn hyn, mae 23 o gwledydd wedi llofnodi a chadarnhau'r Cytundeb. Mae 47 arall wedi ei lofnodi ac yng nghanol y broses o'i gadarnhau.

### **Mae'n bryd i ni ymdrefnu!**

Felly mae yna nifer o gamau mentrus yn bodoli ar gyfer heddwch a diarfogi. Pan wnaeth Cymru ddatgan ei bod hi'n wlad ddi-niwclear dros drideg mlynedd yn ôl, roedd hyn yn ddatganiad o ewyllys. Rhaid i ni ymdrefnu unwaith eto dros heddwch yng Nghymru. Yn yr un mod ag y mae disgyblion ysgol yn protestio dros weithredu yn erbyn newid hinsawdd, rhaid i ni wneud yr un peth dros heddwch. Mae'r ddau yn mynd law yn llaw.

Rhaid i ni sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed yn uchel a chliar ar y llwyfan rhyngwladol, yn gweithio dros economi gynaliadwy a dyfodol heddychlon. Mae hwn o fewn ein cyrraedd.

Jill Evans



Brian Jones

# CYNNYRCH-ISEL = PERYGLUS IAWN

*Mae'r mwytheiriaa a ddefnyddir yn ddigon brawychus – arfau niwclear 'cynnyrch-isel', 'tactegol', 'maes-cad' neu 'hyblyg' – sy'n normaleiddio a lledaenu arfau niwclear. Mae to newydd Trump o ergydion niwclear, y W76-2, eisoes yn treiglo oddi ar y lein gynhyrchu yn Texas. Mae Duncan Rees yn seinio rhybudd.*

## **Ei wneud yn 'ddefnyddiadwy'**

Aeth y ras arfau niwclear yn ddifrifol iawn yn y 50au a'r 60au, ac mae'r hanes brawychus wedi ei gofnodi'n fanwl. Y polisi "braw-ataliaeth" bondigrwybyll oedd y nod, ond yr oedd – ac y maen dal i fod – yn bolisi yswiriant aruthrol o ddrud a pheryglus dros ben. Gallai dim ond un methiant olygu holocost niwclear.

Yr hyn sy'n llai adnabyddus yw'r ffaith fod y sefydliad milwrol, eisoes, yn gynnar iawn yn y broses, yn chwilio am ffyrdd o wneud arfau niwclear yn fwy "defnyddiadwy". Roedden nhw'n ceisio arf y gellid ei ddefnyddio ar faes y gad, o dan reolaeth cadfridogion maes o bosib, ochr y ochr ag arfau confensiynol. Dyna pam y dechreuodd lluoedd Cytundeb Warsaw a NATO ill dau ddefnyddio cerbydau lansio symudol yn cludo arfau niwclear tactegol yn Ewrop. Ochr y ochr â hynny, aethpwyd ati i ddatblygu arfau niwclear cynnyrch-is, a'r bom niwtron (y rhoddwyd y gorau i'w ddatblygu yn sgil protestiadau anferth).

## **Mwy o beryglon, byd anwadal**

Mae CND Cymru wedi dadlau erioed bod lleoli'r arfau niwclear cynnyrch-is neu dactegol bondigrwybyll hyn yn gwneud rhyfel niwclear ar raddfa lawn yn fwy posibl, oherwydd byddai defnydd, neu hyd yn oed bresenoldeb arfau o'r fath yn gwneud rhyfel – a allai ddatblygu'n un niwclear – yn fwy tebygol. Gyda fflachbwyntiau milwrol bellach wedi ymestyn o'r theatrau Ewropeaidd/UD/Rwsiaidd arferol – i barthau fel penrhyn Korea, is-gyfarind India a'r Dwyrain Canol, mae'r posibiladau y gellid lleoli arfau niwclear "cynnyrch-isel neu dactegol" yn y parthau hyn yn destun pryder dybryd.



Cuba Si!

## **Twpdra Trump**

Ers rhai blynyddoedd cafodd trafodaethau'r prif bwerau niwclear ar leihau arfau niwclear rywfaint o lwyddiant – yn cynnwys cwtogi llym ar niferoedd arfau niwclear tactegol. Bellach, fodd bynnag, a'r Arlywydd Trump (pwy arall) wrth y llyw, ymddengys bod perygl y byddwn yn symud i'r cyfeiriad arall yn llwyr.

Wrth sôn am arolwg osgo niwclear newydd yr UD, a gyhoeddwyd yn 2018, nododd CND Cymru: "Mae hyn yn datblygu'r fframwaith ac yn gwneud rhyfel niwclear yn fwy tebygol. Mae'n dileu'r cyfyngiadau ar adeiladu a defnyddio arfau niwclear newydd. Elfen bwysicaf yr arolwg yw ymrwymiad i genhedlaeth newydd gyfan o arfau niwclear, gyda'r pwyslais ar arfau niwclear cynnyrch-isel, a ddisgrifir yn aml fel rhai 'defnyddiadwy'. Dylid pwysleisio fod y bomiau a ddefnyddiwyd ar Hiroshima a Nagasaki yn dechnegol yn rhai cynnyrch-isel yn nhermau heddiw, felly nid sôn am rywbeth bach yw hyn. Mae'n mynd law yn llaw a'r rhaglen gwerth \$1.2 triliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 'moderneiddio' arfau niwclear.

## **Peidiwch â mynd nôl i'r dyddiau hynny!**

Ochr yn ochr â bygythiad yr UD i symud lluoedd niwclear pellter-canolradd newydd i mewn i Ewrop, mae'r datblygiadau hyn mor beryglus ag unrhyw beth a welwyd ers lleoli taflegrau Cruise yng Nghomin Greenham a Molesworth yn y 1980au.

# NA I GLADDU DWFN!

*Ym mha le y ceir safle i Gyfleuster Gwaredu Daearogol ar gyfer gwastraff ymbelydrol lefel-uchel? Dechreuodd y chwilio ofer yma yn ôl ym 1982, gyda'r Gweithgor Gwastraff Ymbelydrol y Diwydiant Niwclear (NIREX). Mae chwilio yn ôl ar yr agenda unwaith eto, fel yr eglura **Sean Morris**, Ysgrifennydd NFLA (Yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear)*

Aeth cais ffurfiol allan gan lywodraeth y DU at bob cyngor yng Nghymru yn gofyn iddynt fynegi diddordeb mewn 'gwirfodddoli' ar gyfer proses i ganfod lleoliad tanddaearol dwfn lle gellid storio cynnyrch 70 mlynedd o wastraff ymbelydrol lefel-uchel a lefel-canolradd y DU. Byddai hyn yn golygu cyfnod storio o gannoedd ar filoedd o flynyddoedd.

Mynegyd gwrthwynebiad cryf ar draws y sbectrwm gwleidyddol, a daeth datganiadau neu benderfyniadau yn gwrthod cynnig y llywodraeth mewn iaith ddi-flewyn-ar-dafod oddi wrth Gyngorau Sir Abertawe, Powys, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Ceredigion a Chastell-nedd Port Talbot. Mae 16 o gynghorau dinas a thref a 50 o Gyngorau Cymuned wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig hefyd.

Fel rhan o'r broses, roedd Radioactive Waste Management (RWM) wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr i drafod sut y byddid yn gwerthuso safleoedd. Gyda lefel gynyddol o wrthwynebiad cyhoeddus yng Nghymru, penderfynodd RWM ym mis Mawrth, ar y funud olaf, i ohirio cyfarfodydd a oedd wedi eu trefnu yn Abertawe a Llandudno a'u troi'n seminarau ar-lein – tateg a feirniadwyd gan Gyngrhair Wrth-niwclear Cymru fel 'ffug' ymarferiad cwbl annigonol.

Mae'r Cyngorau Lleol Di-niwclear (NFLA) yn croesawu gwrthwynebiad i'r cynllun ac yn argymhell polisi gwahanol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol – ar batrwm polisi storio 'ger y safle, ger yr wyneb' Llywodraeth yr Alban, lle gellir adennill a monitro'r gwastraff.

- Am wybodaeth bellach, gweler y ffeithlen a ddatblygwyd gan yr NFLA ar y mater – <http://www.nuclearpolicy.info/wp/wp-content/uploads/2019/02/Rad-Waste-Brfg-76-Deep-waste-repository-factsheet.pdf>

## heddweithredu:

Da chi, cysylltwch â'ch awdurdod lleol, eich cynghorwyr dinas/tref a/neu gymuned.

**Am fanylion:** <https://www.gov.uk/find-your-local-councillors>

**Am y diweddaraf ar sut y pleidleisiodd cynghorau, ewch i** <https://www.cndcymru.org/cy/gwastraff-niwclear>

**Am wybodaeth bellach, gweler hefyd** <https://www.gov.uk/government/collections/geological-disposal-facility-gdf-for-high-activity-radioactive-waste> a

<https://www.facebook.com/notes/cnd-cymru/high-level-radioactive-waste-to-be-buried-in-wales/2190759164279714/>



## WYLFA YN NHIR Y MEIRW BYW

*Yn y pen draw, roedd cwmp Horizon yn un sydyn. Dyma Phil Steele, o fudiad PAWB, yn disgrifio sut y cyhoeddodd y consortiwm Japaneidd ei fod yn tynnu'r plwg ar ddatblygu gorsaf niwclear Wylfa B ar Ynys Môn.*

Roedd union natur y penderfyniad hwn i roi'r gorau iddi yn amwys braidd o'i gyfieithu: roedd 'wedi ei rewi', 'wedi ei oedi', wedi 'cael y farwol'. Neu a oedd wedi ei 'ddileu' yn bendant?

### Y pwll diwaelod

Dangosodd y naid yn ngwerth cyfranddaliadau Hitachi pan wnaed y datganiad hwn y rheswm: roedd costau'r eliffant gwyn hwn wedi mynd yn faich annioddefol ar y gorfforaeth. Doedd dim mwy o fuddsoddi i fod.

### Cicio tin caseg farw?

Bu llywodraeth San Steffan, y lobi niwclear a rhai gwleidyddion lleol yn brygowthan a rhefyr, gan fynegi optimistiaeth y gellir ailgychwyn. Mae'n amlwg y byddai'n rhaid i unrhyw gyllid pellach ddod oddi wrth lywodraeth y DU neu, yn hytrach, y trethdalwr neu'r defnyddiwr, efallai trwy fodel Rheoleg yn Seiliedig ar Asedau [RAB], gweler <http://www.dieterhelm.co.uk/energy/energy/the-nuclear-rab-model/>

Amhosib dyfalu a fydd unrhyw arian newydd ar y bwrdd yr haf yma yn wyneb cyflafan gyfredol Brexit – nac ychwaith pa fath o lywodraeth fydd mewn grym erbyn hynny. Yn ôl Ysgrifennydd Ynni'r Wrthblaid, Rebecca

Long-Bailey, byddai llywodraeth Lafur am adfywio Wylfa B a safleoedd niwclear eraill marw-fyw eu statws, yn ogystal â bwrw ymlaen ag ynni adnewyddadwy. Y drafferth yw na ellir gwneud y ddau. Mae niwclear mor ddrud bellach nes ei fod yn mygu'r buddsoddi angenrheidiol mewn ynni adnewyddadwy.

### Gadewch i ni smallo

Mae unrhyw oedi yn codi nifer o gwestiynau ynghylch dilysrwydd a pharhad y Datganiad Polisi Cenedlaethol cyfredol, sef sail gyfreithiol y rhaglen niwclear newydd o hyd. Fodd bynnag, mae Cais Hitachi am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn dal i rygnu ymlaen mewn bydysawd cyfochrog, lle caiff Wylfa B ei achub gan ryw deus ex machina.

Bellach, cafodd amryw o geisiadau eu gollwng o gylch cyfrifoldeb Cymru, megis mater peilonau a chysylltiadau grid,

a'r gwaith cynamserol o baratoi a chlirio'r safle a 'alwyd i mewn' gan Lywodraeth Cymru. Ond mae'r rhain yn parhau'n rhan annatod o'r DCO – tacteg a feirniadwyd gan PAWB fel ffordd o osgoi democratiaeth yng Nghymru. Mewn cyfres swrrealidd o gyfarfodydd ym Mae Trearddur ym mis Mawrth, bu'r ymgynghoriadau ar effeithiau amgylcheddol Wylfa yn poeni ynghylch cwestiynau fel a ddyldid rhoi to glaswellt ar yr uned storio gwastraff ymbelydrol dros-dro, i ddibenion cynaliadwyedd. Ond mae'r cyfreithwyr yn dal i wneud arian, fodd bynnag – dyna i chi sypreis.

### A oes Cynllun B?

Cafodd prosiect Wylfa B ei or-werthu o'r cychwyn cyntaf, a rhaid i'r gwleidyddion a sicrhaodd y cyhoedd mai hwn fyddai'r ateb i bob problem ddelio â siom amlwg pobl a rhywfaint o ddicter. Mae PAWB



11 Mawrth 2019: protestwyr yn erbyn Wylfa B yn ymgynnull ger Pont Menai i nodi 11eg mlwyddiant trychineb Fukushima

(Pobl Atal Wylfa B) bob amser wedi ystyried posibiliadau amgylcheddol ac economaidd amgen, gan gyhoeddi prospectws o'r enw Manifesto Môn nól yn 2012. Mae PAWB wrthi bellach yn ystyried dewisiadau ynni adnewyddadwy, adfywio cymunedau, posibiliadau newydd ym maes cludiant a phrosiectau diwylliannol. Ym mis Mawrth 2019, cynhyrchoedd y Sefydliad Materion Cymreig gynllun i gael Cymru i fod yn defnyddio ynni adnewyddadwy

yn unig erbyn 2035, gan gynhyrchu 20,150 o swyddi o bosib.

**Y gêm ar ben?**

Maer dyfodol yn ddigon clir, ac maer sgrifen ar y mur i ynni niwclear. Felly, da chi, pan fo ASau neu ACau neu undebau llafur yn sôn am achub ynni niwclear, neu ailgodi ffantasiau ynghylch SMRs, dywedwch wrthynt, yn syml, nad gorffwys y maer parot niwclear, parot marw ydyw, mor farw â hoelen.

Meilir Tomos



*Beth nes? Mae ymgyrchwyr yn trafod dyfodol di-niwclear yng Nghaernarfon.*

**TRAWSFYNYDD: hunan-dwyll yr SMR**

*Gobaith olaf diwydiant niwclear sydd ar fin y dibyn yw'r Adweithydd Modiwlaiidd Bach neu SMR. Mae Deilwen Evans o CADNO yn edrych ar gymhellion milwrol a'r gost eithafol.*

Y bwriad yw seilio dyluniad yr Adweithyddion Modiwlaiidd Bychain ar ddyluniad llongau tanfor niwclear er mwyn arbed arian. Gallai un math o SMR gynnwys 2.5 tunnell fetrig o blwtoniwm ar ddiwedd ei oes.

Rhaid cael ynni niwcliar, costied a gostio, yw neges llywodraeth Llundain. Er i adroddiad 2017 y Swyddfa Archwiliadau (NAO) ddangos diffygion difrifol yn yr achos economaidd dros

godir rhain, mae ffynnonellau amddiffyn yn dweud yn blaen: 'Maer goroesiad diwydiant llongau tanfor niwclear Prydain yn dibynnu ar barhad pŵer niwclear sifil yn y DU.'

Dywedodd William A. Van Hoene Jr, Prif Swyddog Strategaeth Exelon UDA, bod costau presennol yr SMR, o achos eu maint a chostau eu gwarchod, yn rhy ddrud. Nid oes tystiolaeth bod ardal Trawsfynydd yn barod i'w derbyn.

**HINKLEY: gohirio carthu**

*Aeth popeth yn dawel yn y ffrae ynglŷn â dympio llaid ymbelydrol o bosib ger glannau Caerdydd, stori a oedd yn y penawdau 2018. Ond dyw'r frwydr ddim ar ben o bell ffordd rhybuddia Brian Jones o CND Cymru.*

Mae trwydded EdF i garthu a gollwng llaid o bibellau all-lif Hinkley Point A a B ym Mae Bridgewater wedi dod i ben ... ond gan fod EdF bwriadu carthu a dympio mwy yn 2020, rydym yn disgwyl iddynt ymgeisio am drwydded newydd gan CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru ).

**Mwy o dryloywder, os gwelwch yn dda**

Pan roddodd CNC dystiolaeth i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cymru yn 2018, dywedodd y byddai'n ymdrin ag unrhyw geisiadau am drwyddedau tebyg yn y dyfodol yn wahanol. Rydym wedi bod cysylltu â'r Aelodau Cynulliad a oedd ar y Pwyllgor Deisebau, ac wedi derbyn atebion cefnogol iawn gan Mike Hedges (Llafur), Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru) a Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr), sydd oll am sicrhau bod CNC yn gweithredu mewn modd mwy tryloyw. Mae'n bosib y gallwn ddwyn achos cyfreithiol cyn i unrhyw drwydded newydd gael ei rhoi, a thrwy hynny osgoi bygythiad tîm cyfreithiol EdF yr hydref diwethaf o orfod talu iawndal o £118,000 y dydd.

# O FÔN I FYNWY...AROUND WALES...O FÔN I FYNWY

## • *Gwrandawriad achos llys o'r diwedd*

Wedi oedi maith, caiff gwrandawriad y rheini a restiwyd fis Hydref diwethaf yn ystod gwarchae Trident Ploughshares ar SAA Burghfield, un o ffatrioedd ergydion niwclear Prydain, ei gynnal yn awr ar y 23ain a'r 24ain Ebrill 2019 yn Llys Ynadon Reading. Mae'r rhai a restiwyd o Gymru yn cynnwys Awel Irene, Jan Jones, Marie Walsh a Brian Jones.

## • *Chwarae teg i'r hen blant!*

Croesawodd CND Cymru'r protestiadau 'Youth Strikes 4 Climate' gan blant ysgol ledled y byd, wedi eu hysbrydoli gan esiampl y ferch ifanc o Sweden, Greta Thunberg. Mae cysylltiad clos, wrth gwrs, rhwng materion niwclear, amgylcheddol a'r hinsawdd, ac maent oll o bwys hanfodol i genedlaethau i ddod. Fis Chwefror eleni, protestiodd cannoedd o blant ysgol Caerdydd y tu allan i'r Senedd. Rydym mor falch ohonynt!

## • *Cyfnewid barn yn Aberystwyth*

Ar yr 16 Chwefror, cynhaliodd CND Cymru gyfarfod cenedlaethol yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth – i gyfeiliant anfwriadol a lleddf côr yn canu madrigalau drws nesaf! Ar ôl cyfarfod pwyllgor yn y bore, llenwyd y prynhawn gan gyfarfod cyhoeddus a thrafodaeth, gyda Chadeirydd CND Cymru Jill Evans yn siarad am y cytundeb gwahardd byd-eang a Linda Pentz-Gunter, o'r mudiad Beyond Nuclear, yn trafod materion fel effaith gorsafoedd pŵer niwclear ar iechyd menywod a phlant ynbyw yn y cyffiniau, a pham nad yw Adweithyddion Niwclear Bychain yn dechnoleg y dylid mynd ar ei thrywydd.

## • *Gwleidyddiaeth gobaith*

Ym mis Ionawr, cynhaliodd Cangen Menai o Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig gyfarfod cyhoeddus amserol ym Mangor, lle siaradodd Andrew Lane, Cyfarwyddydd Cyngor y Crynwyr dros Faterion Ewropeaidd, ar y pwnc 'Hope over Fear in International Politics'. Ym mis Ionawr ym Mangor hefyd cynhaliodd Cyffwrdd Celf Cyf a Pontio ddiwrnod llwyddiannus o drafod, ffilmiau, celf a cherddoriaeth i gyd-ddathlu diwylliannau Cymru a Syria.

## • *Sesiynau gwybodaeth rhyngwladol*

Gyda Brexit yn tra-arglwyddiaethu ar yr holl gyfryngau, prin fod digwyddiadau o bwys mawr yn y byd yn derbyn y sylw y dylent. Mae Grŵp Heddwach a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn wedi ceisio unioni hyn â sesiynau gwybodaeth ar bynciau allweddol. Fis Chwefror, rhoddodd Adrian Sharratt o'r Blaid Lafur gyflwyniad ar gefndir hanesyddol a gwleidyddol cymhleth y rhyfel yn Yemen. Ar yr 8fed Ebrill (7pm, Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Bangor) bydd Ben Gregory o Cefnogi Nicaragua Cymru, â'i eglurdeb arferol, unwaith eto'n diweddar a dadansoddi'r newyddion o Dde America, gan gyfeirio'n arbennig at Venezuela a Nicaragua.

Paola Dybowski-Bryant



**Swigod yn ffrwtian! Plant yn Llangefni yn gweithredu yn erbyn newid hinsawdd, 15 Mawrth 2019**



## O FÔN I FYNWY...AROUND WALES...O FÔN I FYNWY

• **Menywod, Rhyfel a Heddwch**

Ar Fawrth yr 8fed, dathlwyd Dydd Rhyngwladol y Menywod yn Storiell, Bangor gyda chanolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol yn lansio arddangosfa fechan o'r enw Menywod, Rhyfel a Heddwch. I gydfynd â'r digwyddiad, cafwyd sgwrs gan Annie Williams ar 'Y Bleidlais i Fenywod - Swffragistiaid Bangor'.

• **Atal y Fasnach Arfau!**

Adroddodd Bargas Hatem ar gyfarfod cyhoeddus a gynhaliodd Grŵp Heddwch Sir Gonwy yn Llandudno ddydd Sadwrn 23 Mawrth, a anerchwyd gan Mike Kavanagh o'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau. Tanlinellodd Mike swyddogaeth y DU fel un o brif gynhyrchwyr arfau'r byd, hyrwyddwr DSEI, ac allforiwr arfau i wledydd rhyfelgar sy'n gorthrymu eu pobl yn fewnol, gan atgyfnerthu'r syniad y gellir datrys problemau rhyngwladol trwy rym arfau. Gwerthodd y DU werth £4.7 bilwn o arfau i Saudi Arabia ers 2015 pan ddechreuwyd bomio Yemen, gan fygwth torri'r gyfraith ryngwladol ddyngarol mewn ffyrdd difrifol. Mae'r CU wedi dogfennu ymosodiadau ar ysgolion, marchnadoedd, priodasau ac angladdau. Cafodd galwad am embargo ar werthu arfau i Saudi Arabia dderbyniad cynnes.

Ar y 25 Mawrth, sgrifennodd y Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Gwyrddion, yr SNP a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y cyd at lywodraeth y DU yn galw am weithredu felly.

• **Ynni Cymru ar groesffordd**

Cynhelir seminar ar gyfer Cymru werdd ddi-niwclear ar Ynys Môn yng Nghanolfan Telford (gyferbyn â Waitrose), Porthaethwy, LL59 5EA, o 10.30am i 1.30pm Sadwrn 13 Ebrill. Fe'i trefnwyd gan yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA) ar y cyd â CND Cymru, PAWB, CADNO a Chynghrair Wrth-niwclear Cymru. Bydd Robot Idris yn sôn am symud ymlaen o Wylfa B; yr Athro Steve Thomas, Prifysgol Greenwich, yn trafod Adweithyddion Modiwlaidd Bychain; Sean Morris (NFLA) yn ystyried problemau

claddu gwastraff ymbelydrol yn ddwfn yn y ddaear; a Beca Roberts, Datblygu Egni Gwledig, yn trafod gweithredu cymunedol ar gyfer ynni adnewyddadwy yng nghefn gwlad. Cadeirir trafodaeth banel gan y Dr Carl Clowes.

• **Dydd Hiroshima 2019**

Ar y 6 Awst cynhelir digwyddiad Dydd Hiroshima gan Grŵp Heddwch Sir Benfro yng Nghanolfan Pictwn, Hwlfordd, o 6pm tan iddi nosi. Digwyddiad rhad-ac-am-ddim yw hwn gyda stondiniau ymgyrchoedd, cerddoriaeth a bwyd poeth, a lansio badau cannyll goffa i ddilyn. Am fwy o wybodaeth, cysyllter â [pembrokeshire.peace.group@gmail.com](mailto:pembrokeshire.peace.group@gmail.com)

## CND CYMRU

**Y DRENEWYDD - POWYS - NEWTOWN**  
**Neuadd Eglwys y Methodistiaid Wesleiaidd,**  
**y Drenewydd**  
**Wesleyan Methodist Church Hall,**  
**Back Lane, Newtown**  
**Powys SY16 2NH**

**Dydd Sadwrn Mehefin 1af**  
**Saturday 1st June**

Cyfarfod y Pwyllgor 11.00am *Committee meeting*

**Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyhoeddus**  
**Public Annual General Meeting**

**2.00-4.00pm**  
**BETHAN SIÂN**

Yr Eryr a'r Golomen : yr ymgyrch heddychlon yn erbyn USNF Breudeth yn ystod y 1980au  
*The Eagle and the Dove: the peaceful campaign against USNF Brawdy during the 1980s*

+

y Cytundeb ar Warhardd Arfau Niwclear  
**The Treaty Banning Nuclear Weapons**

**CROESO I BAWB - ALL WELCOME**

## Paul Flynn AS 1935-2019

*Ganed Paul Flynn yng Nghaerdydd a chynrychiolodd Orllewin Casnewydd dros Lafur o 1987 tan 2019.*

*Braint fu hi i CND Cymru i gael Paul Flynn yn gymrawd, yn gyd-ymgrychdydd – ac yn aelod a dalai danysgrifiad llawn – ers ei sefydlu.*

### **Gwrthwynebu pŵer niwclear**

O'r 1970 ymlaen, tanlinellodd Paul beryglon pŵer niwclear tra'n dadlau o blaid dewisiadau mwy diogel, glanach a rhatach ar ffurf ynni adnewyddadwy. Fel Cynghorydd Sir yng Ngwent, bu'n wrthwynebydd llafar i godi gorsaf bŵer niwclear ym Mhorthysgewin. Nid hadeiladwyd. Chwaraeodd ran gyson yn yr ymgyrch i atal Hinkley C, a gwrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer Wylfa B a'r cynigion ar gyfer Adweithyddion (Niwclear) Modiwlaid Bychain yn Nhrawsfynydd.

Pan aeth yn AS ym 1987, roedd a wnelo tri chwestiwn cyntaf Paul yn Nhŷ'r Cyffredin â diogelwch

niwclear, gan ofyn yn rhethregol "Pam ydym ni mor ymrwymedig i dechnoleg pŵer niwclear yn y dyfodol pan wyddom y bydd yn faen melin arall am yddfau'r trethdalwyr?" Fel AS, mae'n werth nodi iddo ofyn 1,410 o gwestiynau seneddol am faterion niwclear, ac fe'i disgrifiwyd gan sylwebydd BBC fel "Dennis Skinner y dyn meddylgar" – dywedodd yntau ei fod yn reit hoff o'r gymhariaeth!

### **Cymru Dai-niwclear**

Ym 1980, roedd Paul yn un o grŵp o ymgyrchwyr a gyfarfu yn Aberystwyth i sefydlu Cynghrair Wrth-niwclear Cymru [WANA]. Fel Ysgrifennydd y Wasg i'r mudiad, chwaraeodd ran amlwg mewn darbwyllo 22 o gynghorau Cymru, yn cynnwys yr holl siroedd, i ddatgan eu bod yn 'ddi-niwclear'.

### **Rhyfel ac arfau niwclear**

Ym 1981, cefnogodd ymadawiad y Daith o Gaerdydd i Gomin Greenham. Anerchodd ddigwyddiadau yn erbyn Byncer Pen-y-Bont ac ymgyrchoedd Caerwent yn y 1980au, a bu'n siaradwr mynych yn nigwyddiadau CND Cymru a'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear

[NFLA] dros y degawdau.

Yn llym ei feirniadaeth ar yr ymosodiadau milwrol ar Irac ac Afghanistan, darllenodd allan, yn Nhŷ'r Cyffredin, restr o enwau'r 176 o filwyr Brydeinig a laddwyd tra'n gwasanaethu yn Irac. Yn 2012 cafodd ei wahardd dros-dro o'r Tŷ am gyhuddo'r llywodraeth o ddweud celwydd ynglŷn ag Afghanistan.

Ers 30 mlynedd a mwy, mynychodd Paul y seremonïau blynyddol i goffáu Hiroshima a Nagasaki ym Mharc Tredegar, Casnewydd. Meddai Sean Morris, o'r NFLA: "Roedd Paul yn ymgyrchydd diflino dros heddwch, yn bleser gwirioneddol i weithio gydag ef, ac yn wir eiriolwr dros fyd di-niwclear."

Yn 2005, sgrifennodd Paul: "Ni allaf ddychmygu unrhyw ddefnydd a allai fod i arfau niwclear, heblaw am y statws maent yn ei roi i ni. Maent hefyd yn tanseilio'n safle mewn trafodaethau rhyngwladol. Sut y meiddiwn ni ddweud wrth Iran am beidio â datblygu arfau niwclear, pan rydym ninnau'n bwrw ymlaen â diweddarau'n rhai ni?" Dim ond mymryn bach a gynrychiolir gan yr atgofion hyn o'r holl waith rhyfeddol a gyflawnwyd gan Paul Flynn – fel ymgyrchydd ac fel AS. Bu'n rym nerthol dros ddegawdau lawer, yn benderfynol bob amser – ac yn huawdl iawn, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

*Braint oedd cael adnabod Paul a gweithio gydag ef. Anfonwn ein meddyliau, ein diolch a'n dymuniadau cynhesaf at Sam, ac at ei deulu.*

Jill Gough



## Jill Gough, portread

*Ers bron cyhyd ag y gallaf gofio, Jill Gough oedd y grym a ysgogai CND Cymru. Mae ei hymrwymiad, ei brwdfrydedd a'i hymdrech wedi bod yn ysbrydoliaeth erioed. Yn fwy na hynny, mae ganddi'r gallu i ddangos i bobl fod pob gweithred ganddynt dros heddwch, waeth mor fechan, yn amhrisiadwy yn yr ymgyrch fyd-eang. Pan es i'n Gadeirydd CND Cymru, gwnaed fy swydd yn un hawdd gan waith diflino Jill. Galwai fy sylw at bethau a llunio datganiadau i'r wasg, papurau cefndir, cynlluniau gweithredu ac, wrth gwrs, golygu'r cylchgrawn gwych Heddwch. Roedd yno bob amser â chymorth a chyngor.*

*Mae Jill yn berson hynod a charedig. Mae ei gwên yn goleuo'r stafell. Gall Jill ddod â phobl o bob cefndir – a phob plaid wleidyddol! – ynghyd dros yr achos. Mae'n ennyn hyder a hunan-barch mewn pobl. Mae'n poeni'n wirioneddol am bobl eraill, sy'n ei gwneud yn arbennig iawn. Bu Jill yn hanfodol o ran gwneud CND Cymru yn fudiad heddwch eang, â gwreiddiau dwfn yng nghymunedau Cymru. Diolch o galon, Jill. Ti'n anhygoel!*

**Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru**



Jill Gough

**2007: Jill Gough yn gorymdeithio gyda'r diweddar Ray Davies (canol) a Dai Davies, AS Blaenau Gwent bryd hynny.**

***Ers blwyddyn bellach, bu'n rhaid i Jill Gough, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru, gamu'n ôl o'r frwydr oherwydd gwaeledd. Fodd bynnag, mae Jill yn dal yn aelod hanfodol a phrysur o dîm CND Cymru, wrthi'n trefnu ac ysbrydoli. Bu'n siarad â Heddwch.***

Dysgodd Jill am fomiau niwclear yn 10 oed, wrth chwarae â ffrind y tu allan i'w chartref ar stad gyngor. Fe'i brawychwyd, a chyfrannodd hynny at ymrwymiad i adeiladu byd lle caiff gwrthdaro ei ddatrys yn ddi-drais a phŵer niwclear ei wahardd. Yn y 1960au, cychynnodd Grŵp leuenticid CND gyda ffrindiau. Treuliodd sawl gwyliau yn ei harddegau yn gweithio ar safleoedd archaeolegol, ochr yn ochr yn aml â rhai'n ffoi rhag gwys i fyddin yr UD a phrotestwyr Fietnam. Daeth

Jill i Gymru i astudio archaeoleg ym Mhrifysgol Caerdydd ym 1970. Dywed mai "Cymru yw ei gwlad", wedi ei hysbrydoli gan ei thraddodiadau heddwchol, anghydfurfiol a gweriniaethol, ei hanes, ei diwylliant, ei haith a'i thirwedd.

Ar sail ei delfrydau cymunedol, aeth yn ddirprwy brif-athrawes ysgol gynradd yn Sir Benfro, cyn gadael i fagu teulu, a throsglwyddo'i delfrydau i'w phlant. Adnewyddodd magu plant ym

*I mi, mae bywyd ac ysbryd Cymru ac CND Cymru wedi eu hymgorffori ym mywyd ac ysbryd Jill Gough: amgen, radicalaidd, hardd, cofleidol ac ysbrydoledig. Diolch i ti am fod yn ti!*  
**Linda Rogers, Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn**

mlynyddoedd Reagan a Thatcher ei theimlad bod rhaid atal rhyfel niwclear. Yn Sir Benfro, gweithredodd gyda Grŵp Gwrth-Niwclear y Preselau. Dyma pryd y sicrhawyd Cymru Ddi-niwclear, tra bod drילו arbrofol ar gyfer safleoedd gwastraff ymbelydrol yn digwydd. Trefnodd brotestiadau ger Gorsaf Orlhain Llongau Tanfor yr UD, Breudeth, ac yna gydag CND a Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth.

Bu Jill yn gwrthwynebu taflegrau Cruise yr UD, gan ymweld â gwersyll heddwch menywod Comin Greenham ac RAF Molesworth, a'u cefnogi. Mae sicrhau dyfodol i'n plant yn rhan o fagu plant. Roedd Jill yn feichiog ym 1986 pan fu'r ddamwain niwclear drychinebus yn Chernobyl. Doedd gan yr un o gyrff y llywodraeth gyngor o fath yn y byd i'r cyhoedd, er bod swyddogion mewn dillad gwarchodol wrthi'n casglu samplau ymbelydrol yn ucheldiroedd Cymru.

Aeth Jill yn Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru ym 1991, gan olygu mwy na 65 rhifyn o Heddwch o 1993 ymlaen. Ym 1995, cododd CND Cymru fwy na £10,000 i fynd, gydag Adi Roche a Phroject Plant Chernobyl Iwerddon, i ysbytai a chartrefi plant amddifad yn rhannau llygredig Belarus. Fel aelod o'r confoi, cofia Jill gwrdd â llu o famau plant sâl neu rai ar fin marw; gofynnodd un iddi "da chi, peidiwch â gadael i hyn ddigwydd i unrhyw riant neu blentyn byth eto."

Yn ystod rhyfeloedd Bush a Blair yn y 2000au, bu Jill yn allweddol o ran cydlynu grwpiau heddwch

a chyfiawnder ledled Cymru, a rhoddodd gymorth gwerthfawr i rwydwaith Cynefin y Werin. Cafodd ei gwahodd i annerch ysgolion a grwpiau ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Mae'n ymfalchïo yn y ffaith iddi siarad ochr yn ochr ag ASAau yn Senedd yr Alban ac yng Nghynulliad Llundain, lle'r awgrymodd efallai y byddai Afon Tafwys yn lle da i ddechrau carthu i greu angorfa i longau tanfor niwclear Prydain!

Mae Jill a'i phlant wedi protestio ym mhencadlys Trident yn Faslane, a bu Jill yn wyneb cyfarwydd yn y Babell Heddwch mewn Eisteddfodau, ac mewn seremonïau i goffáu Hiroshima. Mae wedi protestio yn erbyn hedfan isel milwrol, y defnydd milwrol a wneir o Fynydd Epynt, dronau Parc Aberporth, traddodi anghyfreithlon, a Bae Guantánamo.

**Parhad t14**



Jill Gough

*1995 Yn Vaselivichi yn rhanbarth Gomel, Belarus, a lygrwyd gan Chernobyl. Ar ôl dadlwytho'r moddion i ysbytai ledled yr hanbarth, rhoddwyd yr ambiwlans i gartref plant amddifad.*

*Ti yw'r berth o brydfferthwch – dy eiddo  
 Sy'n dyddyn yr heddwch,  
 A'i dir hardd yn flodau'n drwch,  
 A gweiriau hen frawdgarwch.*  
**Robin Gwyndaf**

*Parhad t 13*

## Jill Gough, portread

Cefnogodd Chelsea Manning a'i theulu yn Sir Benfro, gwrthwynebodd y ganolfan ryfel arfaethedig yn Sain Tathan, dringodd Sellafield yn ystod protest Greenpeace, a gwrthwynebodd Wylfa B.

A hithau nawr yn *fam-gu*, dywed Jill y dysgodd, dros ddegawdau o ymgyrchu, nad oes yna'r fath peth â phobl "gyffredin", ac mai cyd-drefnu a gweithredu ynghyd sydd orau bob amser. Mae wedi dweud erioed mai ras gyfnewid yw hon, ac yn awr, dyma'i thro hi i drosglwyddo'r baton. Anarchydd yw Jill yn y bon, un sydd yn credu mewn pobl ac yn adeiladu pontydd, a'i hunig arfau yn erbyn y pwerus a'r ceccrus yw hiwmor, dim trais, ewyllys da a chydymdeimlad – cyfuniad sy'n gweithio'n bur dda!

*Diolch Jill, am weledigaeth glir, gofal cariadus am y ddaear a'r holl fywyd sydd arni, sgiliau sgrifennu a threfnu syfrdanol, a'r creadigrwydd, y tosturi a'r dyfal-barhad rydych wedi eu rhannu gyda'r mudiad o blaid dyfodol heddychlon a di-niwclear.*

**Felice a Jack Cohen Joppa, The Nuclear Resister**

## CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org  
heddwch@cndcymru.org  
trydar: @cndcymru  
gweplyfr: cndcymru

### Cysylltiadau:

#### Brian Jones

01792 830 330  
brian.jones@phonecoop.coop

#### Duncan Rees

07534 975 461  
Duncan.rees01@gmail.com

#### Philip Steele

01248 490 715  
phil\_steele@btinternet.com

#### John Cox

01495 773 495  
drjohncox121@gmail.com

### Trysorydd, Aelodau ac Aelodaeth Grwp:

**Michael Freeman,**  
CND Cymru,  
9 Primrose Hill,  
Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SE  
michael.freeman9@btinternet.com

### Ysgrifenydd

#### Cenedlaethol:

C/o Llys Gwyn,  
Glynarthen, Llandysul,  
SA44 6PS  
01239 851 188



## HEDDWCH

yw cylchgrawn yr  
**Ymgyrch Ddiarfogi  
Niwclear yng Nghymru**  
(CND Cymru)

### Golygydd:

**Philip Steele**  
phil\_steele@btinternet.com

### Cyfieithydd:

**Sian Edwards**  
sian@siandefynnog.wales

### Cynhyrchu a phostio:

**Redkite Print**  
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys  
**HEDDWCH** o  
anghenraid yn  
adlewyrchu barn neu  
bolisiau C N D Cymru.  
Rydym yn croesawu  
dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw  
sylwadau, cyfraniadau  
neu ddyddiadau am  
ddigwyddiadau at y  
golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf  
o **HEDDWCH** yn  
ymddangos Haf 2019.